Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Estyn
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Cylch Meithrin Aberclwyd
# Capel Clwyd
# Stryd Clwyd
# Rhyl
# LL18 3LA

## Dyddiad yr arolygiad: Gorffennaf 2019

## gan

## Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

## a

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn â Cylch Meithrin Aberclwyd

| | |
|---|---|
| Enw’r lleoliad | Cylch Meithrin Aberclwyd |
| Categori’r gofal a ddarperir | Gofal Dydd Llawn |
| Person(au) cofrestredig | Brian Fitzell |
| Unigolyn cyfrifol (os yw’n berthnasol) | D/A |
| Person â gofal | Joy Lee |
| Nifer y lleoedd | 19 |
| Amrediad oedran y plant | 2-4 blwydd oed |
| Nifer y plant a ariennir am hyd at 2 dymor | 10 |
| Nifer y plant a ariennir am hyd at 5 tymor | 0 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | Dydd Llun, Dydd Mercher, Dydd Iau a Dydd Gwener rhwng 9yb a 2.30yh |
| Gwasanaeth Dechrau’n Deg | Ydi |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw’r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydi |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Mae'r gwasanaeth hwn yn darparu “cynnig gweithredol” y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | 03/05/2017 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | 08/05/2014 |
| Dyddiadau’r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 04/07/2019 |
| Gwybodaeth ychwanegol<br>Mae bron bob un plentyn yn dod o gartrefi di-Gymraeg. | |

## Crynodeb

| Thema | Barn |
|---|---|
| **Lles** | **Da** |
| **Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Gofal a datblygiad** | **Da** |
| **Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Yr amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Diffyg cydymffurfio

**Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad hwn.**

## Argymhellion

A1 Ehangu cyfleoedd i'r plant ddatblygu eu medrau rhifedd mewn gwahanol gyd destunau

A2 Sicrhau bod lefel mwy cyson o her yn y gweithgareddau dysgu

A3 Cryfhau rôl strategol arweinwyr wrth werthuso cynnydd yn erbyn blaenoriaethau

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

**Lles: Da**

Mae bron pob plentyn yn hyderus i fynegi eu hunain, rhannu syniadau ac i wneud penderfyniadau deallus ynglŷn â'u chwarae a'u dysgu. Mae'r rhan fwyaf yn gwneud penderfyniadau a dewisiadau effeithiol iawn am eu gweithgareddau, er enghraifft wrth ddewis lle i chwarae ar ôl amser cylch. Mae'r rhan fwyaf yn gwybod y bydd eu barn yn cael ei barchu gan ymarferwyr. Mae hyn yn hybu hyder y plant yn effeithiol.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn cyrraedd y lleoliad yn eiddgar ac yn ymdopi'n dda iawn wrth wahanu oddi wrth eu rhieni neu ofalwyr. Maent yn gyfarwydd iawn â'r drefn ddyddiol ac mae bron pob un yn gwybod bod amser chwarae rhydd yn dilyn amser cylch. Mae bron pob un plentyn yn ymfalchïo yn eu cyflawniadau ac yn canolbwyntio am gyfnodau estynedig yn dda.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn ffurfio cyfeillgarwch gydag eraill ac yn cyd-chwarae'n arbennig gyda'i gilydd. Mae bron pob un o'r plant yn datblygu synnwyr o dda a drwg ac yn rheoli eu hymddygiad yn effeithiol iawn. Maent yn rhannu offer yn ddirwgnach, yn cyd weithredu ac yn cymryd tro yn briodol. Er enghraifft, maent yn aros tro am offer toes neu'n rhannu offer argraffu gyda phaent.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn ymgysylltu, ac yn dangos diddordeb a chyffro, er enghraifft wrth fwynhau chwarae ar y cyfrifiadur yn annibynnol neu ddefnyddio sialc yn yr ardal chwarae tu allan. Mae bron pob un o'r plant yn dyfalbarhau am gyfnod priodol ac yn mwynhau arbrofi a darganfod, er enghraifft yn y twb dŵr. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn mwynhau gweithgareddau wedi eu trefnu ac yn ennill ymdeimlad o gyflawniad wrth helpu tacluso'r cwpanau a phowlennni ar ôl byrbryd.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn datblygu'u hannibyniaeth a'u dysg yn dda. Maent yn deall pob cyfarwyddyd yn y Gymraeg yn dda ac yn ateb yn briodol. Mae bron pob un o'r plant yn dysgu medrau newydd wrth iddynt brofi amrywiaeth eang a gwerthfawr o gyfleoedd chwarae. Mae rhan fwyaf o'r plant yn dysgu sut i edrych ar ôl pethau byw drwy roi dŵr i'r hadau a bwyd i'r pysgod. Mae rhan fwyaf o'r plant yn dod yn fwyfwy annibynnol ac yn tyfu mewn hyder, er enghraifft, wrth ddefnyddio siswrn, golchi dwylo a thywallt eu diodydd.

**Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da**

Mae rhan fwyaf o blant yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau o'u mannau cychwyn. Mae medrau cymdeithasol llawer o'r plant yn datblygu'n gryf yn ystod eu cyfnod yn y lleoliad. Maent yn rhyngweithio'n naturiol gyda'rymarferwyr a gyda'i gilydd yn ystod eu gweithgareddau. Mae llawer yn ymddwyn yn aeddfed ac yn rhannu a chyd chwarae'n hapus gyda'u ffrindiau.

Mae bron pob plentyn yn gwneud cynnydd da yn eu dealltwriaeth o'r Gymraeg. Mae bron pob un yn arddangos medrau gwrando da. Er enghraifft, yn ystod amser cylch maent yn canolbwyntio'n dda ar gyfarwyddiadau ac ar gwestiynau sy'n cael eu holi

gan yr ymarferwyr ac wrth drafod trefniadau'r gwahanol weithgareddau. Maent yn ymateb yn hyderus, yn aml mewn Cymraeg syml, ac mae eu dealltwriaeth yn gadarn. Mae llawer o'r plant yn mwynhau codi llyfrau ac yn troi tudalennau'n gywir er mwyn edrych ar y stori. Maent yn mwynhau gwrando ar stori yn y gornel ddarllen gydag ymarferwyr. Mae llawer yn dal gwahanol offer ysgrifennu yn gywir, gyda rheolaeth dda. Maent yn mwynhau creu marciau syml yn annibynnol yn y gwahanol ardaloedd. Er enghraifft, maent yn creu trwydded yrru fel rhan o'u thema trafnidiaeth.

Mae llawer o'r plant yn datblygu medrau rhifedd cadarn, yn unol â'u man datblygiad. Gall y rhan fwyaf gyfri hyd at bump yn gywir, gyda lleiafrif yn cyfri hyd at ddeg yn lled hyderus, er enghraifft wrth gyfrif cerbydau sydd yn mynd i mewn i'r garej. Mae llawer yn enwi siapau dau ddimensiwn cyfarwydd yn gywir a thrafod gwahanol wrthrychau wrth gymharu eu maint yn llwyddiannus, gan egluro os ydynt yn fach, yn fwy neu'n fawr.

Mae medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu y rhan fwyaf o blant yn gadarn. Maent yn defnyddio offer cyfrifiadurol yn annibynnol gan ddethol gwahanol raglenni, a chwblhau'r tasgau yn hyderus. Maent yn lywio'r llygoden yn aeddfed ac yn cyd weithio gyda'i gilydd yn aeddfed wrth gwblhau tasgau. Er enghraifft, maent yn ymchwilio gyda chreu seiniau ar raglen gerddorol.

Mae medrau creadigol rhan fwyaf y plant yn datblygu'n gadarn. Maent yn defnyddio gwahanol liwiau paent yn aeddfed ar ôl penderfynu pa liw cerbyd roeddent am ei baentio, neu gynllunio pili pala a'i addurno.

Mae eu medrau corfforol yn datblygu'n dda. Maent yn defnyddio offer mân yn hyderus, er enghraifft wrth dorri siapau ar gyfer addurno eu lluniau gan ddefnyddio siswrn yn gelfydd. Maent yn cynnal eu cyrff yn aeddfed wrth reidio beiciau mawr, neu wrth chwarae ar y siglen a'r trampolin yn yr ardal gorfforol.

**Gofal a datblygiad: Da**

Mae'r ymarferwyr yn rhoi blaenoriaeth uchel i ddiogelwch ac iechyd y plant. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Mae pob un o'r ymarferwyr wedi mynychu hyfforddiant diogelu perthnasol. Maent yn gyfarwydd â gweithdrefnau perthnasol y lleoliad ac mae'r rhan fwyaf wedi mynychu hyfforddiant priodol fel cymorth cyntaf, hylendid bwyd a diogelu plant. Mae'r ymarferwyr i gyd yn cwblhau dril tân yn fisol ac yn gwybod sut i gadw'r plant yn ddiogel mewn argyfwng. Maent i gyd yn gyson yn ymarfer gweithdrefnau hylendid da, er enghraifft drwy olchi dwylo a gwisgo ffedogau a menig wrth weini bwyd. Mae'r ymarferwyr yn dilyn gweithdrefnau da iawn ar gyfer cofnodi damweiniau neu anafiadau. Mae pob un o'r ymarferwyr yn sicrhau cyfleoedd da i'r plant fyw'n iach ac yn atgyfnerthu pwysigrwydd iechyd y geg trwy annog y plant i frwsio'u dannedd yn ddyddiol. Mae'r ymarferwyr yn sicrhau bod y plant yn cael gweithgareddau corfforol gwerthfawr yn ddyddiol. Er enghraifft, maent yn darparu cyfleoedd buddiol iddynt gyd-bwyso, dringo, chwarae ar feiciau a thrwy ymweliadau â'r parc lleol.

Mae'r ymarferwyr yn defnyddio ystod eang o strategaethau rheoli ymddygiad cadarnhaol a phositif ac maent yn delio ag unrhyw anniddigrwydd yn dda. Mae pob un o'r ymarferwyr yn gyson yn garedig ac addfwyn wrth siarad â'r plant ac mae hyn yn arwain at awyrgylch gadarnhaol ac hamddenol. Maent yn canmol y plant yn

rheolaidd ac yn defnyddio sticeri fel gwobrau er mwyn atgyfnerthu eu hunanhyder. Mae ymarferwyr yn modelu ymddygiad da, er enghraifft drwy fod yn gwrtais ac amyneddgar a dweud diolch wrth y plant yn aml.

Mae'r ymarferwyr yn adnabod y plant a'u teuluoedd yn dda iawn ac mae ganddynt ddealltwriaeth glir o'u hanghenion, eu galluoedd a'u hoffterau unigol. Maent yn darparu amgylchedd ofalgar ac yn rhoi anghenion y plant yn gyntaf. Er enghraifft, mae'r ymarferwyr yn ymwybodol o alergeddau y plant ac yn sicrhau bod y bwydydd perthnasol yn cael eu hosgoi. Mae'r ymarferwyr yn gosod ac yn monitro targedau unigol perthnasol er mwyn hybu datblygiad pob plentyn, er enghraifft wrth ddefnyddio cwricwlwm iaith. Mae'r ymarferwyr yn darparu amrywiaeth da o weithgareddau ar gyfer hybu datblygiad cyfan y plant ac yn ymwybodol o bwysigrwydd dysgu trwy chwarae. Er enghraifft, maent yn cynllunio profiadau ysgogol i'r plant arbrofi a darganfod pethau drostynt eu hunain fel gosod cerrig yn y twb dŵr a chreu bwrdd naturiol lle mae'r plant yn gweld hadau yn tyfu ac yn gallu rhoi dwr i'w helpu tyfu.

**Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da**

Un o nodweddion cryfaf y lleoliad yw'r berthynas agos a chynhaliol sy'n bodoli rhwng y plant a'r ymarferwyr. Mae'r ymarferwyr yn cynnal a chefnogi'r plant yn effeithiol iawn. Maent yn eu hadnabod yn dda, ac yn cyd-weithio ochr yn ochr â hwy yn ystod eu gweithgareddau er mwyn trafod a holi'r plant yn fedrus er mwyn eu hannog i feddwl. Mae hyn yn atgyfnerthu eu medrau llafaredd yn llwyddiannus.

Mae gan yr ymarferwyr ddealltwriaeth dda o egwyddorion y cyfnod sylfaen. Mae arweinwyr ac ymarferwyr yn sicrhau cyd-bwysedd effeithiol rhwng gweithgareddau sy'n cael eu harwain gan oedolion, a gweithgareddau sy'n annog annibyniaeth ymysg y plant. O ganlyniad, mae llawer o'r plant yn datblygu annibyniaeth cynyddol, a gallant ddyfalbarhau ar eu tasgau am gyfnodau estynedig. Er enghraifft, maent yn cyd weithio'n llwyddiannus i drwsio llong y môr ladron gan ddefnyddio gwahanol offer yn fedrus.

Mae gweithdrefnau cynllunio'r lleoliad wedi eu diweddaru'n ddiweddar yn sgil cyngor gan yr awdurdod lleol ac maent yn darparu strwythur syml a hylaw ar gyfer cynllunio gweithgareddau'r plant. Maent yn nodi amcanion clir ar gyfer gwahanol weithgareddau. Mae ymarferwyr yn monitro cynnydd y plant yn fwriadus ac yn defnyddio asesiadau rheolaidd yn gadarn er mwyn cynllunio'r camau nesaf yn eu dysgu. Fodd bynnag, nid yw'r gweithgareddau bob amser wedi eu teilwra'n ddigon effeithiol ar gyfer plant o alluoedd gwahanol er mwyn eu herio i symud ymlaen gyda'u dysgu.

Mae'r ymarferwyr yn modelu iaith yn effeithiol ac mae hyn yn cael dylanwad cadarnhaol iawn ar fedrau llafaredd y plant. O ganlyniad, mae rhan fwyaf y plant yn datblygu medrau gwrando da, ac mae ganddynt ddealltwriaeth cynyddol gadarn o'r Gymraeg. Mae'r ymarferwyr yn annog defnydd y Gymraeg yn gyson ac o ganlyniad mae llawer o'r plant yn fwyfwy hyderus i ddefnyddo'r iaith. Mae'r ymarferwyr yn darparu ystod dda o brofiadau llythrennedd ar gyfer y plant, er enghraifft drwy annog y plant i greu marciau gan ddefnyddio ystod eang o adnoddau. Mae'r cynllunio ar gyfer datblygu medrau mathemateg y plant yn datblygu'n briodol. Mae cyfleoedd rheolaidd iddynt ddatblygu dealltwriaeth o rif yn yr ardal fathemateg. Fodd bynnag, cyfyng yw'r gweithgareddau sy'n hybu rhifedd y plant mewn gwahanol gyd destunau ymarferol.

Mae'r ymarferwyr yn darparu amrediad da o weithgareddau technolegol. Er enghraifft, mae cyfleoedd gwerthfawr i'r plant ddefnyddio'r cyfrifiadur a phecynau graffeg er mwyn creu lluniau ar sgrin. Er mai cyfyng iawn yw man tu allan y lleoliad, mae'r ymarferwyr yn sicrhau amrediad da o weithgareddau corfforol ar gyfer y plant ac o ganlyniad mae eu medrau corfforol yn dda. Maent yn cynllunio gweithgareddau creadigol sbardunol, er enghraifft wrth greu darluniau paent lliwgar yng nghyd destun eu gwaith thema ar drafnidiaeth.

Mae'r ymarferwyr yn hybu ymwybyddiaeth ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y plant yn fwriadus. Er enghraifft, maent yn darparu cyfleoedd gwerthfawr iddynt ddysgu am ŵyl Eid a dathlu'r ŵyl gyda'i gilydd. Maent yn hybu Cymreictod ac ymwybyddiaeth o draddodiadau Cymru'n llwyddiannus, er enghraifft trwy ganu hwiangerddi traddodiadol a chyfoes.

**Yr amgylchedd: Da**

Mae'r amgylchedd yn hynod ddiogel a glân, ac o ganlyniad, yn hyrwyddo diogelwch a lles plant yn effeithiol. Mae gan yr ymarferwyr drefniadau cadarn ar gyfer derbyn ymwelwyr i'r adeilad er mwyn sicrhau nad oes mynediad heb ei awdurdodi. Maent yn dilyn gweithdrefnau diogelwch effeithiol pan fydd plant yn cyrraedd a gadael y safle. Sicrheir bod yr asesiadau risg a gwiriadau diogelwch yr offer tân, gwresogi a thrydanol yn gyfredol ac yn drylwyr.

Mae arweinwyr yn darparu gofal i blant mewn ystafell sydd wedi'i gosod mewn ardaloedd priodol i hyrwyddo'u hannibyniaeth a'u hannog i ddysgu a datblygu yn dda. Gwneir defnydd da o'r amgylchedd gan fod ardaloedd chwarae ysgogol wedi'u creu er enghraifft, mae'r ardal amgaëdig amser cylch yn cael ei ddefnyddio hefyd gydag offer mawr er mwyn hybu sgiliau corfforol. Ceir amrywiaeth o adnoddau ymhob ardal, i gyd o fewn cyrraedd rhwydd y plant i annog annibyniaeth y plant wrth iddynt wneud dewisiadau ynglŷn â'u chwarae. Mae'r amgylchedd yn groesawgar a diddorol a cheir arddangosfeydd niferus o waith crefft y plant, sydd yn creu synnwyr o ymberthyn. Gall y plant fynd i'r toiled a defnyddio'r basnau golchi dwylo yn annibynnol.

Ceir cyflenwad o adnoddau o ansawdd da, sy'n briodol i oedran a datblygiad y plant. Mae'r adnoddau yn hygyrch i'r plant ac maent yn cael eu storio mewn bocsys ar lefel isel gyda labeli Cymraeg a lluniau i alluogi'r plant i wneud dewisiadau ynglŷn â'u chwarae yn llwyddiannus. Mae hyn hefyd yn galluogi'r plant i dacluso'n hwylus. Mae ystod eang o deganau ac offer i hyrwyddo ymwybyddiaeth ddiwylliannol, gan gynnwys llyfrau a doliau. Ceir dewis da o adnoddau i blant ddatblygu'u medrau TGCh, er enghraifft cyfrifiadur ac adnoddau sain. Mae cyfleoedd da i'r plant gyffwrdd â deunyddiau naturiol fel cregyn, pren a cherrig, ac maent yn gweld sut mae hadau yn tyfu. Mae ystod eang o ddeunyddiau cynaliadwy ar gael ac mae ymarferwyr yn gwneud defnydd creadigol ohonynt yn y sesiynau, er enghraifft er mwyn creu modelau o awyrennau sydd wedi eu harddangos yn ddeniadol.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da**

Yn yr amser byr ers iddi gael ei phenodi, mae'r arweinydd wedi sefydlu awyrgylch hapus a gweithgar yn y lleoliad. Mae ganddi weledigaeth glir ar gyfer creu darpariaeth lwyddiannus lle mae pob plentyn yn cael ei werthfawrogi am ei alluoedd

gwahanol, ac yn datblygu'n unigolyn hyderus ac aeddfed. Mae'r weledigaeth hon yn cael ei chefnogi'n llwyddiannus gan yr ymarferwyr sy'n cyd weithio'n y lleoliad. Maent yn dîm ymroddgar ac mae ganddynt berthynas adeiladol iawn gyda'i gilydd a chyda'r plant yn eu gofal. Mae'r person cofrestredig a'r pwyllgor rheoli yn cefnogi'r arweinydd yn addas trwy gyfarfodydd llywio. Maent yn cefnogi'n ymarferol er mwyn sicrhau fod trosolwg priodol ganddynt am ddatblygiadau yn y lleoliad. Mae'r datganiad o bwrpas yn ddogfen briodol ac yn cynnwys yr holl wybodaeth angenrheidiol i rhieni wybod syt fath o ofal sydd yn cael ei gynnig.

Mae gweithdrefnau hunanwerthuso defnyddiol wedi eu sefydlu gan yr arweinydd. Mae'r gweithdrefnau hyn yn darparu gwybodaeth fuddiol am gynnydd plant ac am y ddarpariaeth ac yn adlewyrchiad onest o'r sefyllfa gyfredol. Mae'r drefn yn adnabod blaenoriaethau gwella addas, ac mae'r arweinydd a'r staff yn ymateb i'r blaenoriaethau hyn yn gydwybodol. Mae'r arweinydd a'r pwyllgor yn cywain barn rhanddeiliaid fel rhieni yn ofalus, ac yn eu hystyried yn addas. O ganlyniad, mae gwelliannau wedi cael eu gweithredu yn ddiweddar yn yr ardaloedd dysgu, er enghraifft trwy ddarparu mwy o adnoddau mathemateg. Fodd bynnag, nid yw'r arweinydd bob tro yn gwerthuso cynnydd yn erbyn blaenoriaethau i fesur effaith.

Mae gan y pwyllgor brosesau recriwtio cadarn iawn sydd yn sicrhau bod yr ymarferwyr yn addas i ofalu am blant. Mae gan yr ymarferwyr ddisgrifiadau swydd cyfredol ac maent yn gweithredu ar eu rolau'n dda. Mae trefniadau gwerthuso perfformiad yn addas, ac mae gan ymarferwyr dargedau proffesiynol ar gyfer datblygu sydd yn ymateb yn effeithiol i'w hanghenion. Mae ymarferwyr yn elwa o ddatblygiad proffesiynol. Er enghraifft, yn dilyn hyfforddiant ar gynllunio ac asesu yn y blynyddoedd cynnar, mae ymarferwyr wedi addasu'r cynllunio ar gyfer plant dwy flwydd oed.

Mae'r arweinydd,yr ymarferwyr a'r pwyllgor yn cyd weithio'n effeithiol gydag amrediad da o asiantaethau a phartneriaid pwrpasol. Maent yn cyd weithio'n llwyddiannus gydag asiantaeth Dechrau'n Deg ac yn canolbwyntio'n dda ar werthuso cynnydd y plant. Mae gan yr arweinydd a'r ymarferwyr berthynas gadarnhaol iawn gyda swyddogion Mudiad Meithrin, er enghraifft wrth gyflwyno strategaethau ieithyddol ar draws y lleoliad. Maent hefyd yn cyd weithio'n agos gydag athrawes ymgynghorol yr Awdurdod Lleol er mwyn cynnal a datblygu cwricwlwm y cyfnod sylfaen ac o ganlyniad mae'r plant yn dysgu Cymraeg yn dda. Mae gan y lleoliad berthynas agos a gweithgar gyda'r ysgol Gymraeg leol, ac maent yn hwyluso cyfleoedd i fynychu'r ysgol am gyfnodau anwytho. Mae'r rhieni yn gwerthfawrogi polisi drws agored y ddarpariaeth. Maent yn derbyn cyfleoedd rheolaidd i drafod cynnydd a lles eu plant gyda'r ymarferwyr.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2019: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 05/09/2019